CAMU YMLAEN

**Gwasanaeth Tân ac Achub**
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

# Datganiad **diwylliant**

Mae ein cymunedau'n haeddu gwasanaeth tân ac achub y gellir dibynnu arno ym mhob ffordd - i fod yn weithredol ragorol, yn broffesiynol, yn gynhwysol a bod yn wasanaeth y gellir ymddiried ynddo. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i bob un ohonom fod ar ein gorau wrth gyflawni ein rolau, yn cydnabod y cyfraniadau niferus ac amrywiol mae pob un ohonom yn gwneud.

Rydym wedi ymrwymo i greu gwasanaeth tân ac achub diogel, modern yn Ne Cymru ac i sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch, yn rhydd rhag gwahaniaethu, bwlio, aflonyddu ac ymddygiad amhriodol. Rydym yn gwneud yr ymrwymiad hwn i'n staff, ein cymunedau a'r partneriaid a'r rhanddeiliaid rydyn ni'n gweithio gyda nhw bob dydd.

Rydym yn cydnabod Cod Moeseg Craidd y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CPTC) yn sylfaen i'n gwerthoedd ein hunain. Mae hyn yn berthnasol bob amser i bob un ohonom yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio gyda ni neu ar ein rhan. Byddant yn cael eu hadlewyrchu yn ein gwerthoedd ein hunain a hefyd annog ffyrdd o weithio sy'n cefnogi ac yn ysbrydoli, gan groesawu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n huchelgais ar y cyd ar gyfer dyfodol Cymru

- **Byddwn yn rhoi ein cymunedau yn gyntaf -** drwy ddeall eu risgiau a'u hanghenion wrth ymgysylltu'n weithredol, a chan weithio ar y cyd i ddarpau'r gwasanaethau gorau posib a bob amser ymdrechu i wella.
- **Byddwn yn gweithredu gydag uniondeb** – drwy gyflawni ein hymrwymiadau, bod yn agored a thryloyw ac wrth adrodd unrhyw ymddygiadau a gweithredoedd amhriodol.
- **Byddwn yn trin pobl gydag urddas a pharch** – trwy feithrin cydberthnasau cadarnhaol, trin pobl gyda sensitifrwydd a thosturi ac ymgysylltu ag eraill.
- **Byddwn yn dangos arweiniyddiaeth** – drwy fod yn hydwyth ac atebol, yn heriol ac yn galonogol wrth i ni gefnogi ein gilydd i fod y gorau gallwn.
- **Byddwn yn meithrin cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** – drwy ddathlu gwahaniaethau, sefyll yn erbyn pob math o wahaniaethu a meithrin cydlyniant mewn amgylchedd lle gall pawb ffynnu a theimlo eu bod  cael eu gwerthfawrogi.




Rhaid i ni i gyd greu amgylchedd croesawgar, goddefgar a diogel sy'n meithrin cynnydd drwy ddysgu a chyfathrebu agored. Nid oes lle i ymddygiad amhriodol. Eir i'r afael bob amser â gweithredoedd sy'n bygwth, amharchu neu ddychryn eraill. Ni fyddwn yn dioddef bwlio, aflonyddu, gwahaniaethu, cam-drin a niwed, a gweithredir canlyniadau cymesur, eglur, priodol ar eu cyfer.

- Bydd ein disgwyliadau o ran ymddygiad yn glir i bawb, gan gynnwys sefydlu staff newydd ac atgoffa parhaus yn ogystal â dysgu drwy law hyfforddiant ac ymgyrchoedd.
- Byddwn yn cefnogi ein staff i adrodd ymddygiad neu iaith amhriodol gan ein bod yn atebol i'n gilydd.
- Bydd staff a'r cyhoedd ill dau yn cael eu cefnogi wrth adrodd pryderon mewn modd cyfrinachol.
- Bydd ein polisiau a'n gweithdrefnau'n adlewyrchu'r ymroddiad hwn a sefydlu gweithdrefnau eglur.
- Byddwn yn gofalu am iechyd, diogelwch a lles ein staff.
- Bydd creu amgychedd o ymddiriedaeth a hyder yn gofyn am ymroddiad gan bawb, ar bob lefel.

# Datganiad **diwylliant**


Vij Randeniya, OBE


Y Farwnes Wilcox o Gasnewydd FRSA - Debbie Wilcox


Carl Foulkes, QPM, MA


Kirsty Williams CBE

## Y Comisiynwyr

Mae'r datganiad diwylliant hwn yn gam cadarnhaol yn ein taith tuag at adeiladu gwasanaeth tân ac achub iach, effeithlon ac effeithiol. Mae e'n nodi'r safonau gwerthoedd ac ymddygiad yr ydym i gyd yn atebol iddynt.

Gan gynnwys ein rôl mewn llywodraethu a chraffu, yn ogystal â rolau staff wrth leihau risg ac ymateb i argyfyngau yn ein cymunedau, mae angen i bob un ohonom ddod â'n harbenigedd a'n harweinyddiaeth ein hunain i greu amgylchedd sy'n groesawgar, yn oddefgar, ac yn ddiogel, sy'n meithrin cynnydd trwy ddysgu a chyfathrebu agored.

Amgylchedd sy'n caniatáu i bawb wneud eu gorau glas yn y gwaith, gan feithrin hyder llawn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethau, gan alluogi pobl i ymfalchïo gan wybod ein bod ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni pethau mawr.

---

## Y Prif Swyddog Tân


Fin Monahan

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, rydym wedi ymrwymo i fod y gwasanaeth tân gorau posib, gan ddilyn ein gwerthoedd craidd a'n cenhadaeth i wneud De Cymru'n ddiogelach drwy leihau risg.

Mae diwylliant cryf, cadarnhaol yn hanfodol i ragoriaeth weithredol. Byddwn yn cyflawni hyn drwy rymuso ein staff, gan feithrin ymddiriedaeth yn ein gilydd, a hyrwyddo gwaith tîm ar bob lefel. Bydd cydweithio, cyfathrebu agored a chyfnewid syniadau yn allweddol i adeiladu diwylliant lle bydd pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi, ei gefnogi ai ysgogi i gyfrannu.

Fel arweinydd arnoch, byddaf yn sicrhau tryloywder, tegwch, a strategaeth eglur i'n harwain wrth symud ymlaen. Byddwn yn dathlu llwyddiant, cydnabod cyflawniadau, a gwneud yn siŵr bod pob llais ar draws y sefydliad yn cael ei glywed. Trwy gryfhau ein diwylliant, byddwn yn creu gweithle lle mae pawb yn cael eu parchu, yn falch o gyfrannu, ac yn gyffrous i gydweithio er lles y Gwasanaeth a'n cymunedau.

Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar gydymdrech pob aelod o GTADC. Gyda'n gilydd, byddwn yn creu Gwasanaeth sy'n unedig, yn gynhwysiol ac yn ymrwymo i'r safonau uchaf oll o ran perfformiad.

---


**Alison Reed**
PSC Gwasanaethau Pobl

Mae ein Datganiad Diwylliant yn ceisio ein cefnogi ni i gyd drwy ddarparu fframwaith i ni fod y gorau posib. Rwy'n cefnogi'r datganiad yn llwyr, sy'n rhoi pwyslais mawr ar arweinyddiaeth, grymuso a chreu amgylchedd cynhwysol. Mae'r rhain yn elfennau pwysig o'n gwaith wrth i ni greu diwylliant lle mae pob un ohonom yn teimlo ein bod yn cael ein cefnogi a'n gwerthfawrogi a'n bod ni, yn ein tro yn darparu rhagoriaeth gwasanaeth.

Ymrwymaf yn bersonol i ddod â'r Datganiad Diwylliant hwn yn fyw. Byddaf yn cynnal Gwerthoedd y Gwasanaeth a byddaf yn gweithredu gydag uniondeb, gan roi pobl yn ganolog wrth i mi feddwl a gwneud penderfyniadau.



**Dominic Mika**
Cyfarwyddwr Newid Strategol a Thrawsnewid

Rwy'n falch o'n Gwasanaeth a'r ymroddiad a'r ymrwymiad a ddangoswn wrth ddiogelu'r 1.5 miliwn o bobl ar draws De Cymru. Rwy'n gyffrous i arwain ein rhaglen o drawsnewid uchelgeisiol, gyda gwelliant diwylliannol yn ganolog iddi.

Mae gan bob un ohonom ran bwysig i'w chwarae i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn fodelau rôl ar gyfer ein cymunedau. Mae hyn yn hanfodol i wneud yn siŵr y gallwn fod y gorau gallwn, a darparu gwasanaeth i'n cyhoedd sy'n seiliedig ar ragoriaeth weithredol. Mae angen i ni fod yma i'n gilydd, er mwyn bod yno i'r cyhoedd pan fyddant ein hangen.



**Brian Thompson**
PSTC Gwasanaethau Technegol

Fel uwch arweinydd gyda GTADC, rwy'n llwyr gefnogi datganiad diwylliannol a bwriadau fy Ngwasanaeth. Bydd fy nhimau a minnau'n gwasanaethu cymunedau De Cymru, yn unol â gwerthoedd ein Gwasanaeth a'r cod moeseg craidd. Byddwn yn sicrhau eu bod yn sail i bob penderfyniad a phob cam a gymerwn.

Ethos a diwylliant fy nhîm yw gweithio ac arwain gyda thryloywder, atebolrwydd, dewrder a thosturi – gan enghreifftio ymddygiadau Gwasanaeth cynhwysol, gofalgar a chefnogol. Gwasanaeth lle mae pawb sy'n gweithio ynddo yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r cymunedau yr ydym yn falch o'u gwasanaethu.



**Dean Loader**
PSTC Darparu Gwasanaethau

Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal y safonau uchaf o ran proffesiynoldeb a gwasanaethu. Rwy'n cydnabod bod gennyf i, fel arweinydd, rôl bwysig o ran cefnogi diwylliant ein Gwasanaeth yn llawn, wrth gynnal ymddiriedaeth a diogelwch y cyhoedd.

Mae ein datganiad diwylliant yn cefnogi darpariaeth Gwasanaeth yn llwyr a thrwy ein hymrwymiad i weithredu gyda dewrder a thosturi, byddwn yn dangos empathi tuag at y rhai yr effeithir arnynt gan argyfyngau a byddwn yn parhau i feithrin diwylliant o barch a chefnogaeth, gan werthfawrogi safbwyntiau a chyfraniadau amrywiol i helpu adeiladu diwylliant gweithle lle mae pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi, ei barchu a'i gefnogi. Rwy'n deall pwysigrwydd meithrin amgylchedd sy'n croesawu amrywiaeth ac sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

Byddaf yn cynnal gwerthoedd y Gwasanaeth drwy gynnal y safonau moesegol uchaf. Byddaf yn dryloyw, yn onest, ac yn atebol am fy ngweithredoedd, gan sicrhau bod fy ymddygiad bob amser yn adlewyrchu'r ymddiriedaeth y mae cydweithwyr yn ei rhoi ynof.



**Christian Hadfield**
PSTDD/G Gwasanaethau Corfforaethol

Fel uwch arweinydd yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal gwerthoedd ein Gwasanaeth a'r lefelau uchaf o broffesiynoldeb. Credaf mai ymddiriedaeth a diogelwch y cyhoedd yw sail popeth a wnawn, ac rwy'n croesawu'r cyfrifoldeb i sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith.

Rwy'n ymroddedig i hyrwyddo diwylliant ein Gwasanaeth, gan gydnabod ei rôl annatod wrth ddarparu gwasanaeth eithriadol i gymunedau De Cymru.

Fy nod yw cefnogi amgylchedd sy'n hyrwyddo twf personol a rhagoriaeth weithredol ill dau. Rwy'n credu'n gryf mai diwylliant o gynwysoldeb a pharch yw'r sylfaen ar gyfer arloesi a llwyddiant parhaus.

Mae byw yn unol â gwerthoedd y Gwasanaeth yn ganolog i'm daliadau mewn perthynas ag arweinyddiaeth. Mae tryloywder, gonestrwydd ac atebolrwydd ymhlith yr egwyddorion y bydda i'n eu parchu, ac rwy'n sicrhau bod fy ngweithredoedd yn adlewyrchu'n gyson yr ymddiriedaeth a'r hyder a roddir ynof. Mae ein gwerthoedd yn llywio fy mhenderfyniadau a'm rhyngweithiadau, gan atgyfnerthu'r safonau moesol, a ddisgwylir gennyf fel uwch arweinydd yn ein Gwasanaeth.

## Yr Uwch Dîm Arwain

Fel uwch arweinwyr rydym yn cefnogi'r datganiad diwylliant yn llwyr ac yn gefnogol iddo fod wrth wraidd popeth a wnawn. Dyma ein hymrwymiad i ni ein hunain, ein gilydd a'r bobl yn y cymunedau rydym yn eu hamddiffyn. Mae e yno fel sail i'n penderfyniadau, y gwaith a wnawn a'n hymddygiad. Dyma sut y byddwn yn dal ein hunain i gyfrif ac yn herio ein gilydd i fod y gorau gallwn.

Yn unol â'r cod moeseg craidd mae e'n darparu eglurder am yr amgylchedd yr ydym yn ei greu a'r disgwyliadau sydd gyda ni i gyd o ran y rhannau yr ydym yn eu chwarae o fewn ein timau, i greu tîm o dimau i arwain y ffordd ar gyfer rhagoriaeth weithredol, ymddiriedaeth a hyder o fewn ein cymunedau a chefnogi Cymru a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.